GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A55 (CYFFORDD 10 (CYFNEWIDFA FFORDD CAERNARFON) I GYFFORDD 9 (CYFNEWIDFA TREBORTH), BANGOR, GWYNEDD) (GWAHARDD CERBYDAU, BEICWYR A CHERDDWYR DROS DRO) 2022

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A55, neu gerllaw iddi, rhwng Cyffordd 10 (Cyfnewidfa Ffordd Caernarfon) a Chyffordd 9 (Cyfnewidfa Treborth) yn Sir Gwynedd.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys), pob beiciwr a phob cerddwr rhag mynd ar y darnau tua'r gorllewin o gefnffordd yr A55 a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn yr Atodlen honno hefyd.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn weithredol dros nos rhwng 19:00 o'r gloch a 05:00 o'r gloch o 24 Medi 2022 hyd 6 Hydref 2022 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod yr amseroedd a'r dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

THE A55 TRUNK ROAD (JUNCTION 10 (CAERNARFON ROAD INTERCHANGE) TO JUNCTION 9 (TREBORTH INTERCHANGE), BANGOR, GWYNEDD) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES, CYCLISTS AND PEDESTRIANS) ORDER 2022

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A55 trunk road between Junction 10 (Caernarfon Road Interchange) and Junction 9 (Treborth Interchange) in the County of Gwynedd.

The effect of the Order will be to temporarily prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services), cyclists and pedestrians from proceeding on the westbound lengths of the A55 trunk road specified in the Schedule to this Notice. The alternative routes, which will be signed accordingly, are also described in the Schedule.

The prohibitions, which will be signed accordingly, are expected to operate overnight between 19:00 hours and 05:00 hours from 24 September 2022 until 6 October 2022 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the times and dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government

YR ATODLEN

Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr dros dro a Llwybr Arall

1. Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad ffordd ymadael tua'r gorllewin Cyffordd 10 (Cyfnewidfa Ffordd Caernarfon) hyd at drwyniad ffordd ymuno tua'r gorllewin Cyffordd 9 (Cyfnewidfa Treborth).

2. Y darn o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 10 (Cyfnewidfa Ffordd Caernarfon).

3. Y darn o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 9 (Cyfnewidfa Treborth).

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gorllewin fydd mynd ar y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 10, yr A4087 tua'r de-orllewin i Gylchfan Tŷ Golchi a'r A487 tua'r gogledd tuag at Dreborth i ailymuno â'r A55 wrth Gyffordd 9.

SCHEDULE

Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists & Pedestrians and Alternative Route

1. The length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from the nosing of the westbound exit slip road of Junction 10 (Caernarfon Road Interchange) to the nosing of the westbound entry slip road of Junction 9 (Treborth Interchange).

2. The length of the westbound entry slip road at Junction 10 (Caernarfon Road Interchange).

3. The length of the westbound exit slip road at Junction 9 (Treborth Interchange).

The alternative route for westbound traffic will be via the westbound exit slip road at Junction 10, south-westbound A4087 to Ty Golchi Roundabout and northbound A487 towards Treborth to re-join the A55 at Junction 9.